

ARCHIF CERAMEG

Yr Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth



Bwletin

Rhiifyn 13 2014/15

NEWYDDION

Casgliad Ann Carr

Yn Ionawr 2014 derbyniwyd caffaeliad o bwys sef 330 darn o grochenwaith stiwdio i'w adnabod fel Casgliad Ann Carr. Rhoddwyd hwn i'r Brifysgol gan Julian Carr er cof am ei fam, Ann Carr (1928-2013) a oedd yn un o gyfeillion, cymdogion ac edmygydd o Michael Cardew. Fel rhan o'i gylch agos o gyfeillion yn ardal Wenford Bridge roedd hi ymhlith y rhai cyntaf i fod yn bresennol pan agorid o'dyn, a byddai hyd yn oed yn cymryd rhan i danio o'dynau yn y crochendy. Yn ei dro, roedd Cardew yn fynych yn westai i swper yn Fellover, ei thŷ modernaidd prydferth. Codwyd y tŷ yn 1960 i fod yn gartref iddi hi ac i'r ysgol gynradd breifat y bu hi'n ei rhedeg am flynyddoedd lawer. Roedd y tŷ yn llawn o'r potiau roedd hi wedi eu caglu ac wedi cael pleser o'u defnyddio drwy gydol ei hoes. Roedd yn cynnwys hyd yn oed grochendy bychan ar y llawr isaf lle byddai Cardew ac eraill o grochenyddion Wetford yn dod i ddysgu'r plant. Roedd hi a Cardew yn rhannu'r un diddordeb mewn diwylliant clasurol, roedd hi'n teimlo'n frwd tuag at wlad Groeg ac roedd hi'n rhugl yn iaith fodern y wlad. Yn ddiweddar byddai'n treulio rhan o'r flwyddyn yn ei fflat fechan ar ynys Naxos. Roedd yn hafan iddi ar brydiau yn y 1970au pan oedd Michael Cardew yn ysgrifennu ei hunangofiant.

Mae'r casgliad pwysig hwn i gyd yn gysylltiedig â Chrochendy Wenford Bridge a sefydlwyd gan Michael Cardew yn 1939. Fodd bynnag mae llawer o'r gwaith wedi ei gyhyrchu gan rai o'r crochenyddion pwysig a fu'n gweithio gydag ef yno. Roedd yn aml yn Affrica yn y 1960au ac ar ôl 1970 roedd yn aml i ffwrdd ar deithiau yn yr Unol Daleithiau ac Ewrop. Yn ogystal â gwaith Michael Cardew ei hun, mae'r gwneuthurwyr pwysig eraill yn cynnwys – Gwyn Hanssen-Pigott, Svend Bayer, Ladi Kwali, Danlami Aliyu, Michael O'Brien, Seth Cardew a Richard Batterham. Gyda chymorth grant gan Ffederasiwn Amgueddfeydd asc Oriellau Celf Cymru, yn ystod haf 2014, catalogiwyd y casgliad a ffotograffwyd ef gan Robert Sanderson a Coll Minogue a ddaeth â'u harbenigedd mewn tanio â coed, crochenwaith a ffotograffiaeth at y gwaith. Mae'r casgliad cyfan erbyn hyn ar y wefan Casgliad Ceramig.

Yn 2013 dyfarnwyd grant Datblygu Cynulleidfaoedd i ni gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Roedden ni'n ffodus i gael Ruth Lloyd yr oedd ei phrofiad o redeg rhaglen Preswyliaid y V&A yn amhrisiadwy. Anogodd ei hadroddiad ni i ddatblygu sioe deithiol ar raddfa fwy ac i wneud gwaith mwy uchelgeisiol. Yn dilyn hynny, yn hydref 2014, llwyddwyd i gael grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru o £20,906 sef yr un mwyaf i ni ei gael erioed. Roedd hyn ar gyfer datblygu dwy arddangosfa sylweddol a oedd yn ymwneud â gwaith prosiect rhyngddisgyblaethol o gwmpas casgliad Ann Carr gyda phlant ysgol, myfyrwyr prifysgolion a'r cyhoedd yn gyffredinol. Dyma enedigaeth y *Prosiect Potiau Poeth* – gweler rhagor isod.

Newyddion <
Arddangosfeydd a Digwyddiadau <
Prosiect Potiau Poeth <
Gweithgareddau i'r Teulu <
Caffaeliadau <
Casgliad Cerameg Archif <
Mynediad a Benthyciadau <
Digido <
Tîm yr Archif <
Grantiau <
Gwefan a Chysylltau <
Cydnabyddiaeth <



Curaduron ifanc yn gweithio gyda Chasgliad Ann Carr yn y Prosiect Potiau Poethion.

Mae ail ran y grant wedi cefnogi datblygiad *Philip Eglin Slipping the Trail* ac yn ymateb i Grochenwaith Bwcle yn ein casgliad. Cychwynnwyd ar y prosiect cyffrous hwn mewn cydweithrediad â Chanolfan Grefftau Rhuthun ac Oriel Mission Abertawe gydag ymweliad i'r casgliad gan Philip Eglin. Ymatebodd yn syth i'r llestri slip cynnar a dechrau tynnu lluniau. Yn ddiweddarach ymgymrodd â gweithdy gyda phlant o ysgol Llwyn-yr-Eos yn Aberystwyth ac ers hynny mae wedi creu corff newydd cyffrous o waith, wedi ei seilio'n

bennaf ar thema coginio a bwyta. Bydd yr arddangosfa yn agor ar gyfer yr Ŵyl Rhyngwladol Cerameg yn 2015.



Philip Eglin yn lluniadu yn yr Oriel Geramig

Enillodd yr Oriel Geramig statws Atyniad Ansawdd Sicr ar gyfer 2013/15 gan y Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr (VAQAS) ar gyfer Amgueddfeydd.

Arddangosfeydd a Digwyddiadau Perthynol

Michael Flynn (Gaeaf 2013-14) Arddangosfa Deithiol Maenor Llantarnam

Gwaith Michael Flynn oedd sioe y gaeaf yn yr oriel, arddangosfa deithiol o Faenor Llantarnam, y mae Moira Vincentelli wedi ysgrifennu traethawd catalog amdani. Ym mis Tachwedd cyflwynodd Michael Flynn anerchiad darluniadaol am ei waith a'i ddiddordeb yn llên gwerin a chwedlau Ewopaidd, i fyfyrwyr Ysgrifennu Creadigol a Chelfyddyd Gain yn yr Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol. Yna ymatebodd y myfyrwyr i'r gwaith mewn gweithdy rhyngddisgyblaethol a ddeilliodd ar farddoniaeth, rhyddiaith a perfformiadau rhyfeddol.

Fireworks Now (Haf 2014)

Arddangosfa'r haf yn yr oriel oedd sioe deithiol o Crefft yn y Bae, Caerdydd ac roedd yn seiliedig ar gerameg o'r Stiwdio Fireworks yng Nghaerdydd. Ym Mehefin traddododd y curadur, Alex McLairn, sgwrs yn yr oriel a dilynwyd hynny gan symposiwm gyda rhai o'r arddangoswyr.

Cerameg a Thirlun (Awst-Hydref 2014)

Mewn perthynas â'r ffaith i ni gael esiampl bwysig o gerflun gan James Tower, trefnwyd arddangosfa o waith o'r casgliad a oedd yn dwyn perthynas â thirluniau.



James Tower, Butterfly Form, 1980

Dathliad Ceramig: 50fed Pen Blwydd Crochenyddion De Cymru (Tachwedd-Ionawr 2015)

Yn yr hydref arddangoswyd Dathliad Ceramig yn cynnwys gwaith ugain o aelodau cyfredol Crochenyddion De Cymru. Roedden ni wedi cydweithio ar ddatblygiad yr arddangosfa hon ac yn trefnu i ddigido cylchlythyron cynnar Crochenyddion De Cymru (1965-1980) a fydd ar gael drwy'r wefan. Ysgrifennodd Moira Vincentelli draethawd ar gyfer y catalog ac ym mis Tachwedd cynhaliwyd digwyddiad yn yr oriel gyda Moira Vincentelli a dau o'r artistiaid, Alison Lochhead a Joe Finch.

Y Prosiect Potiau Poeth

(24ain Ionawr hyd 14eg Mehefin, 2015)

Cyfres o gyfodiadau newidiol a digwyddiadau arbennig yn defnyddio potiau o Gasgliad Ann Carr o Grochenwaith Wenford Bridge.

Tanya Harrod: Ysgrifennu Bywgraffiad Michael Cardew

Yn Chwefror 2015, cyflwynwyd sgwrs awr ginio cysylltiedig â'r Prosiect Potiau Poeth gan Dr Tanya Harrod awdur arobryn *The Last Sane Man: Michael Cardew, Modern Pots, Colonialism and the Counterculture*. Dilynwyd hyn gan seminar ynglŷn â'r profiad o ysgrifennu bywgraffiad a rhoddodd hynny gychwyn ar gyfres o weithdai ar ysgrifennu creadigol dan arweiniad Katherine Stansfield mewn perthynas â'r arddangosfa.

Gweithdai Ysgrifennu Creadigol gyda Katherine Stansfield

Cyflwynwyd cyfres o weithdai Ysgrifennu Creadigol gan y bardd a nofelydd lleol Katherine Stansfield seiliedig ar yr arddangosfa Potiau Poeth ac yn ystyried ansawdd esthetig y gwrthrychau yn yr arddangosfa – eu ffurf, eu lliw, a'u gwedd – a'u defnydd ymarferol, gyda'r ffocws ar wneuthuriad a bwyta. Cafwyd darlenniad cyhoeddus ar ddiwedd Ebrill o'r hyn a ysgrifennwyd yn ystod y prosiect gan y rhai fu'n cymryd rhan.

Digwyddiad Casgliad y Werin Cymru

Ym Mawrth 2015, arweiniwyd digwyddiad arall yng nghylch y Prosiect Potiau Poeth gan Josie Walter, gyda sgwrs yn y sinema.



Josie Walter yn cael ei chyfweld ynglŷn â photiau coginio yn yr Oriel Geramig

Josie yn grochenydd, darlithydd ac yn ysgrifenydd a hi yw awdur 'Pots in the Kitchen'. Edrychodd ar wahanol fathau o botiau, yn amrywio o'r potiau pridd brongrynon a ddefnyddid i goginio mewn tân agored ac a ddefnyddir o hyd mewn llawer rhan o'r byd, hyd ffurf côn rhyfeddol a edrychai ychydig yn debyg i gaead ond a oedd mewn gwirionedd ar gyfer troi tortila Sbaenaidd.

Yn dilyn y sgwrs aeth pawb i lawr i'r Oriel Grochenwaith i edrych ar rai o'r potiau coginio o grochendy Bwcle a wnaed yng Nghymru tua chan mlynedd yn ôl. Trafodwyd sut yr oeddynt wedi cael eu defnyddio, archwiliwyd eu gwaelodion a'r ôl trael ac ystyriwyd a oeddynt wedi eu defnyddio mewn ffwrn neu fel dysglau gweini bwyd yn unig. Roedd Hazel Thomas a'i thîm o Gasgliad y Werin yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yno i gofnodi cyfraniadau arbennig gan rai am eu potiau eu hunain neu rai o'r casgliad.

Prosiect Ysgolion gydag Ysgol Llwyn yr Eos, Penparcau

Yn 2015 rhedwyd prosiect ysgolion eang gyda chyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau gydag Ysgol Llwyn yr Eos, Penparcau mewn perthynas â'r prosiect Potiau Poeth. Dechreuodd arweinydd y gweithdy ar raglen ddeng wythnos o weithgaredd yn yr ysgol a Chanolfan y Celfyddydau. Gwelsant i gyd ran dda o ffilm hynod o boblogaidd Michael Cardew 'Mud and Water Man', a wnaed yn 1976 pan oedd eisoes yn 75. Aethant hefyd i ymweld â'r arddangosfa Potiau Poeth ac i gydio mewn peth o'r gwaith cerameg yn y casgliad. Cawsant ragor o brofiad ymarferol wrth lunio teils yng nghrochendy Canolfan y Celfyddydau a buont yn lluniadu ychydig gyda Philip Eglon yn yr ysgol.

Ymyrraeth Curadurion Ifanc yn y Prosiect Potiau Poeth

Ddiwedd Mawrth crewyd trawsnewid rhyfeddol yn yr oriel gan Anna Evans a'r grŵp o Guraduron Ifanc Amgueddfa Ceredigion. Fe'u hysbrydolwyd gan thema bwyd y Prosiect Potiau Poeth a buont yn arbrofi gyda chynlluniau addurnol gan ddefnyddio codlysiau megis pys a ffacbys, reis a the i ddatblygu gwaelodion patrymog ar gyfer y blychau yn yr Oriel Geramig. Ysbrydolwyd y cynlluniau ac roeddynt yn ymateb i'r cynlluniau ar botiau Michael Cardew. Roedd Anna wedi gweithio hefyd gydag Ysgol Penweddig a oedd wedi creu lluniadau o rai o'r eitemau roedd hi wedi ddod i'r ysgol gyda hi. Yna, llungopiwyd y rhain a'u lleihau a'u hail ddefnyddio yn yr arddangosfa. Roedd dyfyniadau o eiriau Michael Cardew ar dameidiau o bapur cyrliog yn llifo allan ohonynt. Roedd rhubanau



papur hirion gyda chynlluniau seiliedig ar y gwaith mewn rhai o'r blychau eraill. Roedd y cyfan yn ymyrraeth ddyfeisgar a haenog yn deillio o'r profiad o weithio gyda'r crochenwaith o Wenford Bridge a dysgu mwy am Michael Cardew a'i waith.



'Intervention with textile fruit' gan Laura Cameron

Gweithgaredd Teulu

Mae'r rhaglen Gweithgaredd Teulu yn dal i gael ei mwynhau gan deuluoedd lleol. Cymerodd dros ddau gant o bobl ran mewn 6 digwyddiad a oedd yn rhedeg hyd Fawrth 2013/14 ac roedd bron i 300 yn cymryd rhan yn rhaglen 2014/15. Roedden ni hefyd yn cymryd rhan yng Ngŵyl Gelfyddydau'r Teulu yn Hydref 2014. Roedd rhaglen gaeaf 2015 wedi ei threfnu o amgylch y Prosiect Potiau Poeth ac roedd y teuluoedd yn cael mwynhad arbennig wrth weld eu heitemau toes-halen yn cael eu harddangos ym mlychau arddangos yr oriel ymhlith y potiau Ann Carr. Enwebwyd Louise Chennell ar gyfer Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth 2015 am ei gwaith gyda'r prosiect hwn.

Caffaeliadau

Casgliad Cerameg

O Ŵyl Gerameg Ryngwladol 2013 cawsom waith gan Sung Jae Choi (Korea), Virginia Scotchie (UDA), Stephen Dixon (y DU), Rafael Perez (Sbaen), Monika Patuszynska (Gwlad Pŵyl) a Conor Wilson (y DU).

Mae'r cagliad yn parhau i gefnogi gwneuthurwyr Cymreig a phrynwyd eitemau cyfoes gan Michael Flynn, Susan O'Byrne a jwg gwych gan Walter Keeler o sioe Crochenyddion De Cymru. Rydyn ni'n ddiolchgar i Cymdeithas Gelfyddyd Gyfoes Cymru a gyflwynodd ddarn a wnaed gan Len Rees yn 1999.



Walter Keeler jug

Cafwyd pump o ddarnau hanesyddol o Lafa Trwchus yn dyddio o 1895-1950au gan Gérard Mermoz a oedd yn guradur *Keramic Conversations: From Vallauris to Fat Lava*, 2013. Cawsom un ar ddeg o eitemau hefyd gan Harry & May Davis o Grochendy Crowan y buont yn ei redeg o 1946 hyd nes iddynt symud i Seland Newydd yn 1962. Mae caffaeliadau eraill yn cynnwys darn gan Ken Eastman (y DU) a ailddehonglodd y patrwm 'Old Imari' ar gyfer Royal Crown Derby, Stephanie Quayle (y DU) o'i harddangosfa yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth 2013, a Gillian Stuill, 'Seven Dwarves looking for Snow White' 1985.

Caffaeliadau Archif

Derbyniwyd detholiad o lyfrau braslunio a lluniadau gan Denise Wren oddi wrth Ms. Amber King.

Mynediad a Benthyciadau

Rydyn ni'n cynnig dyddiau astudo crochenwaith ar gyfer myfyrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol gyda siaradwyr ac artistiaid gwadd. Gall y rhain gynnwys sesiynau gafaél, mynediad i'r storffeydd a hefyd mynediad at ddefnyddiau archif a recordiadau hanes llafar.

Yn 2014 rhoddwyd benthyc tri gwaith gan Shoji Hamada a dau gan Bernard Leach i'r Tate St Ives ar gyfer yr arddangosfa, *Relocating St Ives* ac yn 2015 dri gwaith gan Ladi Kwali i'r arddangosfa o'i gwaith yn y Ganolfan Astudio Crefft, Farnham.

Digido

Yn 2013 llwyddwyd i gael Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) i ariannu prosiect MPhil mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac fe'i cwblhawyd gan Jack Snow yn 2014.

Yn 2015 fe weithion ni gyda Sarah Higgins a myfyrwyr o'r MA mewn Archifo Digidol ac a oedd yn ymchwilio cynladwyedd ein casgliad o dapiau a recordiadau Hanes Llafar. Gwnaed gwaith rhagorol ganddynt ynghyd ag argymhellion defnyddiol am y modd y dylem storio a gwneud y casgliad yn fwy hygyrch.



Michael Cardew, dysgl caserol Gwari o gasgliad Ann Carr

Y Tîm Archifo

Moira Vincentelli: Athro Emeritws mewn Hanes Celf & Churadur Cerameg

Louise Chennell: Cynorthwydd Curadurol ac Archifydd Cerameg

Dr. Kathy Talbot: Cynorthwydd Archifau

Neil Holland: Curadur Casgliadau

Grantiau

Grant Datblygu Cynulleidafoedd Cyngor Celfyddydau Cymru £5000 (2013-2014)

Ffedrasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru – dyfarnwyd grant o £1238 am waith ffotograffig ar Gasgliad Ann Carr (2014)

Cyngor Celfyddydau Cymru £24000 (2014-15) dyfarnwyd grant o £20,906

Cerfluniau Cerameg James Tower gyda chymorth oddi wrth y Gronfa Gelf a Chronfa Grant Pwrcasu'r V&A – £4500

Dyfarnwyd grant Rhaglen Mewnwelediad Strategol o £2500 i'r Athro Moria Vincentelli ar gyfer mynd i India i weithio gyda Sefydliad Sanskriti a Chrochenwaith India yn Himachal Pradesh. Bydd Vineet Kacker yn arddangoswr yn yr Ŵyl Gerameg Ryngwladol.

Gwefan a Chysylltiadau

Cyfeiriad y Wefan yw <http://www.ceramics-aberystwyth.com>

Cyswllt Ebost yw contact@ceramics-aberystwyth.com

Cyfeiriad Post: Archif Cerameg, Ysgol Gelf, Buarth Mawr, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth SY23 1NE

Archif Cerameg: Ffôn: (+0044) 01970 622192

Oriau Agor yr Oriol: Ar Agor: Llun–Sad 10am–8pm (Suliau 12–5pm) gwiriwch yr oriau agor cyn ymweld er mwyn osgoi newidiadau neu gyfnodau ar gau ar gyfer cynnal a chadw.

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth: Ffôn (+0044) 01970 623232 (am fanylion arddangosfeydd)

Ysgol Gelf: Ffôn (+0044) 01970 622460 (ar gyfer gwybodaeth gyffredinol, ymholiadau a chwestiynau).

Dilynwch ni ar Twitter  a Facebook 

Cydnabyddiaethau

Mae'r Archif Gerameg ar gael yn Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r cyrff ariannu canlynol sydd wedi cefnogi ein gwaith: Cyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Grant Pwrcasu Adnoddau/y V&A, Y Gronfa Gelf, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru.

Supported by
 **The National Lottery**[®]
through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

 **Cyngor Celfyddydau Cymru**
Arts Council of Wales

 Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government